Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (Rheoliad 22), Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015

Datganiad Cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol newydd i Lywodraeth Cymru a Hysbyseb o'r Newidiadau Ffocws Arfaethedig

Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2015 – 2031

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cyflwyno cynigion ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol uchod (CDLl) i Lywodraeth Cymru eu harchwilio. Os, a phan, y mabwysiedir cynigion y cynllun hwn, byddant yn ffurfio'r cynllun datblygu ar gyfer y Parc Cenedlaethol a byddant yn sail i benderfyniadau ar gynllunio defnydd tir sy'n effeithio ar yr ardal honno.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cynnig newidiadau i'r Cynllun Datblygu Lleol Adneuo a elwir yn **Newidiadau Ffocws**. Mae'r newidiadau hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus tan **4.30yp ar Ddydd Gwener, 15 Chwefror 2019**. Mae ffurflen cyflwyno sylwadau hefyd ar gael.

Mae copïau o ddogfennau'r CDLl ar gael i'w weld yn rhad ac am ddim ar gyfrifiaduron sydd ar gael i'r cyhoedd yn y lleoliadau isod:

- Pencadlys Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Parc Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6DY. Oriau Agor: Dydd Llun i Ddydd Iau 9am i 5pm a dydd Gwener 9am i 4.30pm.
- Oriel a Chanolfan Ymwelwyr Oriel y Parc, Tyddewi, Sir Benfro, SA62 6NW. Oriau agor: bob dydd 9.30am i 4pm.
- Llyfrgelloedd yn ystod eu horiau agor arferol.

Maent hefyd ar gael ar wefan yr Awdurdod yn www.arfordirpenfro.cymru/dweudeichdweud

Mae'r dogfennau'n cynnwys y CDLl Adneuo, Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (sy'n ymgorffori Adroddiad Amgylcheddol), yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, y Cytundeb Cyflawni, Adroddiad Adolygu, Adroddiad Ymgynghori, copïau o sylwadau a dogfennau ategol eraill, a'r Ddogfen Newidiadau Ffocws.

Arolygydd annibynnol fydd yn cynnal yr archwiliad i benderfynu a yw'r cynllun yn gadarn neu beidio. Dim ond y rhai sy'n cyflwyno sylwadau sy'n ceisio newid y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo yr oedd eu sylwadau wedi'u 'gwneud yn briodol' (h.y. yn unol â hysbysiadau cynharach), sydd â'r hawl i ymddangos gerbron yr Arolygydd a chael gwrandawiad ganddo yn yr Archwiliad (Adran 64(6) o Deddf 2004), ynghyd â'r rhai a gyflwynodd sylwadau ar y Newidiadau Ffocws sy'n dymuno ymddangos yn yr Archwiliad.

Rhoddir hysbysiad o leiaf 6 wythnos cyn i'r archwiliad ddechrau. Mater i'r Arolygydd fydd fformat y gwrandawiad.

Mae rhagor o wybodaeth neu gyngor ar gael gan Wasanaeth Cyfarwyddyd y Parc, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Parc Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6DY (Ffôn 01646 624800) neu yn devplans@pembrokeshirecoast.org.uk